**Y CYNGOR**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 28 Tachwedd 2022, trwy Microsoft Teams.**

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Mr Dafi Jones, Llywydd UMCA; Ms Sharron Lusher; Dr Louise Marshall; Aisleen Sturrock, Llywydd UMAber; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Claire Vaughan; Dr William Williams; Ms Nicola Wood; a'r Athro Reyer Zwiggelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (ar gyfer Cofnod 32); Dr Gethin Rhys, Dirprwy Gofrestrydd; Mr Steve Thomas; Pennaeth Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus; a Ms Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Kate Eden a Rhuanedd Richards.

**16. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Yr Athro Emeritws Martin Barker, cyn Athro Astudiaethau Ffilm a Theledu yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu; a
   2. Yr Athro Richie Overdale, cyn aelod o staff yn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

2. Dull Cynnal y Cyfarfod

   Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly'n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad a nodwyd ar y flaenddalen.

**17. AILBENODI'R CANGHELLOR A'R DIRPRWY GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (COU2223-019)

NODWYD

1. Y cynnig i ymestyn cyfnod swydd y Canghellor hyd at ddwy flynedd tan 31 Rhagfyr 2024, a'r Dirprwy Ganghellor am dair blynedd tan 31 Rhagfyr 2025. Byddai'r Brifysgol yn dechrau'r broses o chwilio am unigolyn i'w benodi i swydd y Canghellor. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r argymhellion. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**18. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**19. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Medi 2022 (COU2223-021).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

**20. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2223-022).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

2. Arfarniad Blynyddol Aelodau'r Cyngor (2.7):
Roedd hyn wedi'i gwblhau a'i derfynu, ac anogwyd yr aelodau i wirfoddoli i fod yn arsylwyr ar y Senedd.

3. Is-Strategaeth Academaidd cyfrwng Cymraeg (11.1.6 a 11.1.7):
Gwnaed mân gywiriadau, a byddai'r Pwyllgor Astudiaethau Cyfrwng Cymraeg yn goruchwylio'r is-strategaeth, ac yn adrodd i'r Bwrdd Academaidd. Byddai angen ystyried diweddariadau pellach a gyflwynir i'r Cyngor. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

4. Yr Hen Goleg (13.5):
Cafodd ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ym mis Tachwedd, ac roedd yn eitem ar yr agenda, eitem 15 (COU2223-043). Cwblhawyd a therfynu'r cam gweithredu.

**21. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2223-023).

NODWYD

Y penderfyniadau a wnaed rhwng cyfarfodydd trwy ohebiaeth.

**22. GOHEBIAETH**

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

**23. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR IECHYD A DIOGELWCH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Claire Williams (COU2223-024).

NODWYD

1. Roedd yr Adroddiad Blynyddol am 2020-21 yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor fod y sefydliad yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau yng nghyswllt Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd. Rhoddai grynodeb o'r prif ddatblygiadau yn ystod sesiwn academaidd 2021-22, ynghyd â'r heriau a wynebwyd. Roedd y Cyngor yn falch o nifer o gyflawniadau a nodwyd, gan gynnwys y ffaith fod y tîm Iechyd a Diogelwch wedi'i atgyfnerthu, datblygiadau polisi, rhaglen hyfforddi wedi'i hail-ysgogi, a thîm Iechyd Galwedigaethol newydd. Gellid gwneud gwelliant i'r cymariaethau blwyddyn i flwyddyn trwy wella ymhellach y data a roddir yn yr adroddiad blynyddol. [**GWEITHREDU:** Rheolwr Iechyd a Diogelwch].

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Iechyd a Diogelwch.

**24. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (COU2223-025).

NODWYD

1. Y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr ers cyfarfod diwethaf y Cyngor, gan gynnwys y gefnogaeth a gynigiwyd i fyfyrwyr a oedd yn cael trafferth gyda chostau byw. Roedd bwyd ac offer wedi'i ddarparu gan fyfyrwyr, ac roedd yr Undeb yn dal i groesawu rhoddion. Ar hyn o bryd roedd yr NSS yn cynnal arolwg ledled y DU ar gostau byw, ac roedd y Brifysgol ei hun yn atgyfnerthu ei chefnogaeth trwy'r gronfa caledi myfyrwyr.

**PENDERFYNWYD**

2. Gofyn am ddiweddariad pellach ynglŷn â'r gefnogaeth a gynigir i fyfyrwyr sy'n cael trafferth gyda chostau byw, yng nghyfarfod nesaf y Cyngor. [**GWEITHREDU:** Llywydd UM].

**25. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2223-026)

NODWYD

1. Roedd pedair prif adran i'r adroddiad: adroddiad uchafbwyntiau; adroddiad o'r Senedd; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Roedd y Brifysgol yn hyderus y gallai arbed £3.6 miliwn yn ystod y flwyddyn, a byddai camau i gyflawni hynny'n cynnwys cadw golwg ofalus ar swyddi gwag a phrosiectau unigol, a gallai hyn efallai effeithio ar fuddsoddi mewn ymchwil.

3. Ar y cyfan roedd nifer y myfyrwyr wedi cynyddu, er bod llai o fyfyrwyr o Gymru a gweddill y DU wedi'u cofrestru. Roedd prosiect i hybu recriwtio rhyngwladol ar y gweill, a fyddai'n edrych hefyd ar gyfraddau trosi yn rhai o'r adrannau mwyaf a oedd wedi wynebu heriau cymhleth dros y flwyddyn ddiwethaf.

4. Roedd dathliadau'r 150 pen-blwydd wedi dechrau, ac ar ôl Diwrnod y Sylfaenwyr ar 4 Hydref 2022 cafwyd digwyddiad llwyddiannus ym Malaysia lle daeth 130 o gyn-fyfyrwyr ynghyd. Y gobaith oedd y byddai cyfleoedd pellach i ddenu myfyrwyr yn deillio o hyn.

5. Roedd UCU wedi gweithredu'n ddiwydiannol ar ffurf streiciau ar 24 a 25 Tachwedd, a disgwylir streic arall ar 30 Tachwedd. Hefyd, roedd UCU yn bwriadu gweithredu'n ddiwydiannol heb streicio. Byddai'r Brifysgol yn ceisio sicrhau nad oedd unrhyw ddiffyg deunyddiau yn effeithio ar fyfyrwyr, yn amodol ar gyfyngiadau eiddo deallusol a hawlfraint.

6. Roedd Aberystwyth wedi perfformio'n gryf yn nhabl cynghrair y Guardian, ond byddai angen bod yn ymwybodol o'r newidiadau arfaethedig i'r defnydd o ddata ACF wrth baratoi'r safleoedd.

7. Roedd Gweithrediaeth y Brifysgol yn bwriadu cryfhau ei datblygiad masnachol a busnes. Byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach â chadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad. [**GWEITHREDU:** yr Is-Ganghellor].

**26. DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Steve Walsh, Pennaeth Cynllunio (COU2223-027)

NODWYD

1. Roedd adroddiad diwedd blwyddyn C4 yn cynnwys data wedi'i ddiweddaru ar sefyllfa uwchraddedigion ymchwil, diweddariad ar y niferoedd a gwblhaodd y Cynllun Cyfraniad Effeithiol (CCE), a data ariannol diwedd y flwyddyn. Roedd y CCE yn faes o danberfformio, lle nad oedd tystiolaeth lafar ynglŷn â thrafodaethau anffurfiol yn cael ei adlewyrchu yn y nifer a gwblhaodd yn ffurfiol.

**PENDERFYNWYD**

2. Nodi'r adroddiad fel yr amlinellwyd.

3. Y dylai'r Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio roi ystyriaeth fanwl i'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**27. MATERION ARIANNOL**

1. Cyfrifon Rheoli 2022-23

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Mark Godsell (COU2223-028).

1. Roedd effaith eithriadau'r Gyllideb yn M2 wedi'u nodi, a’r elfen amlycaf oedd bod y sefyllfa o ran denu myfyrwyr yn wannach na'r disgwyl, ynghyd â rhai meysydd eraill nad oeddent chwaith wedi cyflawni disgwyliadau'r gyllideb, gan gynnwys lefel uwch o leoedd gwag yn llety’r myfyrwyr. Roedd y sefyllfa net yn gyfanswm o £3.6m yn llai i'r gyllideb a byddai angen cau’r bwlch hwn. Roedd grŵp Gweithredol wedi'i sefydlu i adolygu a monitro swyddi gwag, a chroesawodd y Cyngor y dull hwn o ‘led-rewi’ penodiadau, ynghyd â'r sicrwydd a roddwyd ynglŷn â llif arian y Brifysgol.

2. Yr Adroddiad a’r Cyfrifon Blynyddol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 (yn cynnwys y Cyfrifon Rheoli i gysoni Datganiadau Ariannol; a Llythyr a Memorandwm Rheoli'r Archwilwyr Allanol)

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Mark Godsell (COU2223-029).

1. Defnyddiai’r adroddiad dempled y cytunwyd arno ledled Cymru yn dilyn adolygiad Camm. Croesawodd yr aelodau'r pwyslais cryf ar weithgareddau a digwyddiadau llwyddiannus, ac yn arbennig ailddechrau cynnal seremonïau Graddio yn haf 2022 ar ôl bwlch o ddwy flynedd. Yn dilyn adborth is-bwyllgor, gellid canmol y fersiwn ddiweddaraf am fod yn ddogfen fywiog ac amrywiaethol, a byddai'n cael ei chyflwyno i’r Cyngor Cyllido yn amodol ar wirio terfynol i wneud mân gywiriadau. Roedd y broses archwilio ariannol wedi gweithio'n dda ac roedd gwarged bychan o 200k am y flwyddyn yn gyflawniad cadarnhaol mewn amgylchiadau hynod heriol.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Adroddiadau Blynyddol a'r Cyfrifon am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, a’u cyflwyno i CCAUC yn amodol ar fân addasiadau i'r fersiwn derfynol. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

3. Llythyr Cynrychiolaeth at yr Archwilwyr Allanol

Adroddiad gan Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid, (COU2223-030).

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo’r Llythyr Cynrychiolaeth i'w lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

4. Adolygiad o’r Rheoliadau a’r Gweithdrefnau Ariannol

Adroddiad gan Peter Nickals, Rheolwr Gweithrediadau Cyllid Dros Dro; Mark Godsell, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, a Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol (COU2223-031).

1. Yn dilyn adolygiad trylwyr, byddai Rheoliadau Ariannol diwygiedig y Brifysgol yn cael eu cyfyngu i gynnwys gwybodaeth ar y lefel uchaf, ynghyd â pholisïau a gweithdrefnau gweithredol i roi canllawiau penodol, gan symud oddi wrth y dull rhagnodol i ddull seiliedig ar egwyddorion. Roedd y ddogfen derfynol yn cael ei gwirio a byddai'n cael ei chyflwyno i'r Cyngor i gael ei chymeradwyo'n derfynol.

**PENDERFYNWYD**

2. Croesawu'r adolygiad ar y Rheoliadau Ariannol. [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol i gyflwyno'r ddogfen derfynol i'w chymeradwyo].

5. ASSUR (Datganiad Blynyddol Cynaliadwyedd)

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Mark Godsell (COU2223-032).

1. Dangosai'r adroddiad fod diwydrwydd dyladwy priodol wedi'i wneud i gadarnhau bod y Brifysgol yn gynaliadwy ac yn fusnes hyfyw.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo Datganiad Blynyddol Cynaliadwyedd.

6. Penodi Ymgynghorwyr Proffesiynol

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2223-033).

1. Yn dilyn tendro, byddai cwmni Quantum Advisory Services yn ymgymryd â dyletswyddau Ymgynghorwyr Proffesiynol am 48 mis o 1 Chwefror 2023.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo penodi cwmni Quantum Advisory Services yn Ymgynghorwyr Proffesiynol.

7. Adroddiad Blynyddol a Barn yr Archwilwyr Mewnol

Adroddiad gan Deloitte (COU2223-034).

1. Manylai'r adroddiad blynyddol ar ganfyddiadau'r archwiliad mewnol ar lywodraethu corfforaethol a rheoli risg. Roedd aswiriant yn sylweddol ar gyfer llywodraethu corfforaethol, ac yn gymedrol ar gyfer rheoli risg. Roedd argymhellion yr archwiliad wedi cael sylw.

2. Roedd yr archwilwyr wedi nodi bod y Brifysgol yn perfformio'n dda wrth ddelio â lefelau rheolaeth a bod y meysydd hyn yn symud i gyfeiriad cadarnhaol. Roeddent wedi canmol diwylliant Aberystwyth o ymateb yn dda i adroddiadau aswiriant cyfyngedig gan nodi diwylliant cadarnhaol o ran parodrwydd i wella.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol yr Archwilwyr Mewnol.

8. Perfformiad Cronfeydd Gwaddol a Chronfeydd Buddsoddi eraill

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2223-035).

1. Yn ystod blwyddyn ariannol 1 Awst 2021 - 31 Gorffennaf 2022, roedd portffolio'r cronfeydd Gwaddol a chronfeydd Buddsoddiadau eraill wedi lleihau o £47.2m i £41.3m, sef gostyngiad o £6.1m. Roedd y gostyngiad yn gysylltiedig â thri phrif reswm: yn gyntaf cafodd Cam 1 o Strategaeth yr Hen Goleg ei weithredu (£5m); yn ail roedd gwerthusiad y farchnad o'r portffolio buddsoddiadau wedi gostwng yn sylweddol (£0.9m) yn bennaf oherwydd digwyddiadau geowleidyddol a chyfraddau chwyddiant cynyddol a achosodd ansicrwydd ac anwadalwch yn y farchnad; ac yn olaf, cau rhai cronfeydd Gwaddol (£0.2m). £41.2m oedd cyfanswm buddsoddiadau'r Brifysgol bellach, ac roedd £11.0m o'r rhain yn cael eu hystyried yn 'Gronfeydd Rhydd' y Brifysgol, sydd ar gael i'w defnyddio'n gyffredinol.

2. Ym mlwyddyn 2021-22, roedd y Brifysgol wedi derbyn £0.5m o waddolion newydd ac, er ei fod y tu allan i'r cyfnod adrodd hwn, roedd y Brifysgol yn disgwyl derbyn £3.6m pellach o waddolion ar ddiwedd 2022.

9. <u>Datgeliad Caethwasiaeth Modern</u>

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Mark Godsell (COU2223-036).

1. Yn unol â gofynion Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015), a Chod Ymddygiad Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi, roedd y Brifysgol wedi paratoi Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022.

2. Cafodd cynllun gweithredu Cod Ymarfer y Brifysgol ei gyflawni ar y cyfan, a byddai camau gweithredu sydd yn dal ar y gweill yn cael eu cyflawni yn ystod 2022/23. Roedd gwaith yn parhau i ddatblygu'r gofrestr contractau, ynghyd â phrosiect sector cydweithrediadol ynglŷn â chadwyni cyflenwi.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Datganiadau arfaethedig ynghylch Caethwasiaeth Modern a Masnachu Pobl.

**8. ADRODDIADAU / DATGANIADAU BLYNYDDOL**

1. <u>Adroddiad Blynyddol rhaglen 'Prevent'</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2223-037).

NODWYD

1. I sicrhau bod staff yn cwblhau Hyfforddiant Dyletswydd Prevent, byddai pecyn hyfforddi newydd yn cael ei gyflwyno'n fuan, â disgwyl i'r staff ei gwblhau o fewn deufis. Roedd sesiwn hyfforddi gynharach wedi cael ei chroesawu gan Benaethiaid Adrannau ac aelodau Grŵp Goruchwylio Prevent, a byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i gynnal rhagor o ddigwyddiadau. Roedd disgwyl hefyd y byddai swydd cydlynydd ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei hadfer o fis Medi 2023.

2. Roedd sgôr sicrwydd 'Cymedrol' wedi'i roi yn sgil archwiliad mewnol o drefniadau'r Brifysgol, gydag argymhellion yn ymwneud â hyfforddi staff, newidiadau i'r Polisi Diogelu, a chynnwys dyddiadau cwblhau ar gyfer cynlluniau gweithredu Grŵp Goruchwylio Prevent. Cafodd ymatebion ffurfiol gan y rheolwyr eu cyflwyno yn rhan o'r Archwiliad Mewnol, gyda manylion am gamau gweithredu arfaethedig, amserlenni, a'r unigolion a fyddai'n gyfrifol. Roedd y rhain wedi'u cwblhau gan mwyaf, ac roedd disgwyl y gweddill cyn y Nadolig.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod y Cyngor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y rhaglen Prevent, gan nodi bod rhai camau gweithredu yn dal i fod angen eu cwblhau.

2. <u>Datganiad Blynyddol ar Gyflogau</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU2223-038).

NODWYD

1. Yn 2017, roedd Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud hi'n ofynnol i brifysgolion gyhoeddi Datganiadau Blynyddol ar Gyflogau, yn unol â'r egwyddorion cyffredin a'r safonau gofynnol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2015, yng nghyswllt cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

2. Wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor, byddai'r Datganiad Blynyddol ar Gyflogau yn cael ei gyhoeddi ar dudalennau Gwybodaeth Gorfforaethol gwefan y Brifysgol.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar Gyflogau a gynigiwyd.

3. <u>Adroddiad Blynyddol ar Ryddid i Lefaru</u>

Adroddiad gan Swyddog Parhad Busnes ac Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2223-039).

NODWYD

1. Rhoddodd yr Adroddiad Blynyddol grynodeb o'r prif ddatblygiadau yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, gan gynnwys gwybodaeth yn ymwneud â Chod Ymarfer Rhyddid i Lefaru y Brifysgol a sut mae'r Cod yn berthnasol i geisiadau i gynnal digwyddiadau hysbysadwy.

2. Roedd tri digwyddiad hysbysadwy wedi'u nodi yn ystod y flwyddyn, ac roedd yr adroddiad yn cofnodi'r meini prawf a ddefnyddiwyd i bennu eu bod yn hysbysadwy, a'r camau a gymerwyd gan y Brifysgol i geisio hwyluso hyn.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Ryddid i Lefaru.

4. Datganiad Blynyddol ar Berfformiad Rheoli Carbon

Adroddiad gan Dewi Day, Ymgynghorydd Cynaliadwyedd (COU2223-040).

NODWYD

1. Gwnaed gwelliannau sylweddol yn y methodolegau cipio data ers ymwneud â'r cymorth ar gyfer y strategaeth sero net ac roedd y strategaeth sero net wrthi'n cael ei chwblhau ar ei ffurf derfynol. Nod y Brifysgol oedd y byddai'r llwybr tuag at sero net wedi cael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi erbyn dechrau 2023. Roedd nifer o brosiectau datgarboneiddio sylweddol wedi'u cwblhau'n ddiweddar, gan gynnwys fferm solar 2.5MW, tyfu planhigion newydd, goleuadau, a chyflwyno ceir a faniau trydan yn lle nifer o gerbydau'r fflyd. Roedd cam nesaf y datblygiad yn cynnwys nifer o brosiectau datgarboneiddio ychwanegol ar raddfa fawr gan gynnwys y prosiect plannu coed, cyfnod 3 REFIT, a Rhwydwaith Gwres Ardal Aberystwyth.

**PENDERFYNWYD**

2. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol ar Berfformiad.

**29. DATGANIAD SICRWYDD BLYNYDDOL I CCAUC A'R CYNLLUN FFIOEDD A MYNEDIAD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro (COU2223-041).

NODWYD

1. Yn rhan o'r trefniadau adrodd blynyddol, roedd y Cyngor Cyllido yn mynnu bod pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru yn cyflwyno Datganiad Sicrwydd Blynyddol. Bob mis Tachwedd roedd y Cyngor Cyllido yn darparu'r templed i'w ddefnyddio, a byddai'r datganiad yn cael ei lofnodi gan Gadeirydd y Cyngor a chan yr Is-Ganghellor, sef y Swyddog Atebol.

2. Byddai manylion aelodaeth Claire Vaughan o'r pwyllgor yn cael eu hadolygu.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad Sicrwydd Blynyddol i CCAUC a'r Cynllun Ffioedd a Mynediad. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol i'w gyfeirio i'r Grŵp Ansawdd cyn ei gyflwyno'n derfynol].

**30. DATGANIAD O SICRWYDD ANSAWDD (GAN GYNNWYS DATGANIAD BLYNYDDOL UM A'R DATGANIAD AR GANLYNIADAU GRADDAU)**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Kim Bradick, y Dirprwy Gofrestrydd (COU2223-042).

1. Aeth y Brifysgol drwy Adolygiad Gwella Ansawdd llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac fe gafwyd sicrwydd gan Arholwyr Allanol hefyd ynghylch safon dyfarniadau Aberystwyth ym mhob maes pwnc.

2. Roedd yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn gymeradwyaeth gadarn i'r modd y mae'r Brifysgol yn mynd ati i reoli gweithgareddau partneriaeth, ac oherwydd hynny

gostyngwyd y sgôr Coch/Oren/Gwyrdd (RAG) ar gyfer partneriaethau o goch i wyrdd. Roedd ystod eang y Brifysgol o bartneriaethau o ansawdd uchel yn sylfaen gref i ddatblygiadau pellach yng Nghymru a thrwy addysg drawswladol.

3. Roedd y cynnydd yn nifer y cwynion a pha mor gymhleth oeddent yn duedd ledled y sector (wedi’i sbarduno, o bosibl, gan Covid), ac nid oedd Aberystwyth yn eithriad. Nid oedd unrhyw themâu cyson yn yr achosion yr ymdriniwyd â hwy, ac roedd angen ymdrin â phob un ohonynt mewn modd gofalus a sensitif.

4. Roedd addasiadau Covid wedi effeithio ar ganlyniadau graddau 20/21, ac er bod y sector wedi cael ei hannog i fynd i'r afael â chwyddiant a mynd yn ôl i’r trefniadau arferol cyn Covid, byddai ffigurau 21/22 yn rhoi gwell syniad o dueddiadau hirdymor. Byddai'r Cyngor yn cael diweddariad yng ngwanwyn 2023, ond nododd fod y Brifysgol hefyd yn ymwybodol o'i safonau mynediad cymharol uchel o'u cymharu â dosbarthiadau’r graddau mewn rhai pynciau, a bod angen sicrhau bod cyflawniadau a gwaith caled y myfyrwyr yn cael eu cydnabod.

5. Roedd y Cyngor yn ymwybodol o'r amser cyfyngedig a oedd ar gael i drafod yr adroddiad sylweddol a phwysig hwn a chytunodd i adolygu ei amserlen fusnes am y sesiwn academaidd nesaf. [**GWEITHREDU:** Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Brifysgol].

**PENDERFYNWYD**

6. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Datganiad o Sicrwydd Ansawdd, gan gynnwys Cyflwyniad Blynyddol UM a'r Datganiad ar Ganlyniadau Graddau.

**31. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2223-043)

NODWYD

1. Roedd cynnydd sydyn a pharhaus yng nghostau’r gwaith adeiladu a chostau eraill yn achos pryder difrifol ac yn rhoi pwysau ar y cyllid wrth gefn. Roedd trafodaethau'n parhau ynghylch newid posibl yn y sefyllfa gytundebol gydag Andrew Scott. Gwnaed cais am gyngor cyfreithiol a byddai adroddiad manwl yn cael ei baratoi i asesu'r cynigion a'r canlyniadau. Roedd yr aelodau'n pryderu bod y prosiect yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r Brifysgol, â’r costau ar ffin yr hyn oedd yn fforddiadwy. Bu iddynt nodi mai’r Brifysgol oedd yn gyfrifol am yr adeilad Gradd Un, a bod hyn yn fater oedd â risg sylweddol yn perthyn iddo.

2. Er mwyn ymateb i gwestiynau'r aelodau ynghylch adennill TAW, cadarnhawyd wedi'r cyfarfod mai cyfanswm yr incwm dan sylw fyddai £125,000, gyda £25,000 o TAW yn daladwy arno, a hynny o gyfanswm y refeniw a ragwelwyd, sef £3.2m. ***[Nodyn wedi’r cyfarfod]***

3. Byddai cyfarfod ychwanegol o’r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad yn cael ei gynnal ar 12 Rhagfyr 2022 i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau gydag Andrew Scott. Ni gadarnhawyd eto a fyddai angen cynnal cyfarfod arbennig o'r Cyngor hefyd. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**32. MATERION YN YMWNEUD Â’R YSTAD:**

1. Diweddariad ar Uwch-gynllun y Strategaeth Ystadau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Chris Davies, Tim Macy ac Andrea James, Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2223-044).

NODWYD

Y diweddariad ynghylch cynnydd ar Uwch-gynllun y Strategaeth Ystadau. Nododd y pwyllgor nad oedd unrhyw gostau na chyfnodau wedi'u pennu hyd yma. Byddai'n rhaid i unrhyw ddatblygiad fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy ac yn gysylltiedig â'r cynlluniau ar gyfer incwm yn y dyfodol, gyn roi ystyriaeth hefyd i fodelau gweithio cymysg.

2. Gwaredu Asedau Campws Llanbadarn – Cloriannu'r Opsiynau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ac Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2223-045).

1. Cafodd yr angen i waredu asedau campws Llanbadarn ei nodi fel cam gweithredu, a chytunwyd ar hynny, yng Nghynllun Gweithredu Cynaliadwyedd 2017-2022. Defnyddiwyd gwasanaeth cwmni Savilles i argymell y ffordd fwyaf priodol o waredu'r asedau, ac er mwyn sicrhau bod cyfalaf yn cael ei dderbyn ac osgoi costau cynnal parhaus roedd ar y Brifysgol eisiau bwrw ymlaen â'r argymhellion i farchnata'r safle cyfan gyda'i gilydd, ond gan nodi yn y manylion gwerthu y gellid cyflwyno cynigion am rannau ar wahân, a chan fod yn hyblyg o ran yr ymgyrch farchnata. Byddai angen cymeradwyaeth bellach gan y Cyngor er mwyn gwaredu'r safle, neu rannau ohono.

**PENDERFYNWYD**

2. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r strategaeth i waredu asedau campws Llanbadarn. [**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol].

3. Gwaredu Asedau Ychwanegol o'r Ystâd ynghyd â Gwaredu Asedau o'r Ystâd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Tim Macy ac Andrea James, Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2223-046).

1. Gofynnwyd am gytundeb mewn egwyddor i werthu pedwar darn o dir nad oeddent eto ar y rhestr o asedau y cafwyd cymeradwyaeth i'w gwaredu; byddai hyn yn cadarnhau bod y Brifysgol yn fodlon ystyried y posibilrwydd o werthu'r darnau hyn o dir, a hynny o fewn i gyfyngiadau'r gweithdrefnau Gwaredu Asedau. Y tir darn tir dan sylw oedd:

   i) Llain o dir prysg ger fferm Lluest, sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gan y Ganolfan Geffylau.

ii) Darn o dir yn fferm Frondeg, Blaenplwyf, sydd am y ffin â gwesty'r Conrah gynt.

iii) Rhimyn o ffordd balmantog sy'n arwain i fyny o Heol Llanbadarn.

iv) Llain bychan o dir gerllaw Clwb Bowlio Aberystwyth a glustnodwyd yn safle ar gyfer Mannau Tyfu Cymunedol, i'w reoli gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

2. Bod y Cyngor yn cymeradwyo, mewn egwyddor, i werthu'r pedwar darn o dir y ceir manylion amdanynt yn y cofnodion. [**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol].

4. Prosiect Adnewyddu Pantycelyn - Adolygiad wedi'r Prosiect ac Adolygiad o Niferoedd y Myfyrwyr.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Andrea James, Cyfarwyddwr Ystadau, Cyfleusterau a Phreswylfeydd (COU2223-047).

NODWYD

1. Bod cwmni ymgynghori CBRE wedi ei gomisiynu i gynnal adolygiad diwedd prosiect ar gyfer Prosiect Adnewyddu Neuadd Pantycelyn, wedi i'r neuadd gael ei hailagor ym mis Hydref 2020. Roedd yr adolygiad wedi cynnwys arolwg yn astudio'r cyfnod ar ôl dechrau ailddefnyddio'r neuadd ac ystyriwyd adborth gan aelodau allweddol o dîm y prosiect, staff y Brifysgol, myfyrwyr, a rhanddeiliaid eraill.

2. Bu nifer y myfyrwyr a ddewisodd fyw ym Mhantycelyn yn is na'r disgwyl, ac roedd y Brifysgol yn datblygu strategaeth, sydd wrthi'n cael ei llunio ar hyn o bryd, i ddenu myfyrwyr. Byddai hyn yn cynnwys adolygiad o'r anghenion arlwyo a ffyrdd posibl o gynyddu hyblygrwydd.

**33. GRADDAU ER ANRHYDEDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro (COU2223-048).

1. Yn dilyn trefn enwebu a gafodd ei hysbysebu'n eang, roedd y Grŵp Graddau er Anrhydedd wedi cytuno ar restr fer am raddau er anrhydedd i'w cynnig yn ystod dathliadau pen blwydd y Brifysgol yn 150.

**PENDERFYNWYD**

2. Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r rhestr fer a gynigiwyd am raddau er anrhydedd. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

**34. MATERION LLYWODRAETHU**

1. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd i'r Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro (COU2223-049).

NODWYD

1. Roedd y pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi ystyried yr adroddiad blynyddol a ddatblygwyd, ac yn cadarnhau ei fod yn gynhwysfawr.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Archwilio, Risg a Sicrwydd i'r Cyngor.

2. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro a Nicholas Rogers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol (COU2223-050).

NODWYD

1. Roedd y Pwyllgor Taliadau wedi ystyried ei Adroddiad Blynyddol ac wedi cadarnhau ei fod yn gynhwysfawr.

**PENDERFYNWYD**

2. Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Taliadau i'r Cyngor.

3. Adroddiadau blynyddol yr is-bwyllgorau i'r Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro a Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2223-051).

NODWYD

Bod adroddiadau blynyddol yr is-bwyllgorau yn codi cwestiynau am lefel y manylion sydd eu hangen, ac er eu bod yn rhoi amlinelliad o'r gwaith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, cytunwyd y dylid ailystyried eu diben er mwyn sicrhau cysondeb a gwerth i'r Cyngor. [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

4. Cytundeb Perthynas UMAber

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Emma Williams, Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro (COU2223-052).

1. Mae'n amod gan y Cyngor Cyllido bod prifysgolion ac Undebau Myfyrwyr yn creu Cytundeb Perthynas, y dylid ei gymeradwyo bob blwyddyn gan Gorff Llywodraethu'r sefydliad, ei adolygu'n flynyddol mewn pryd ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd, a'i lofnodi gan y Swyddogion Myfyrwyr sy'n dechrau yn eu swyddi.

2. Heblaw am ddiweddaru'r llofnodion, nid oedd newidiadau'n cael eu cynnig i'r Cytundeb Perthynas fel y saif ar hyn o bryd ac roedd copi wedi'i atodi wrth yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

3. Bod y Cyngor yn cadw'r Cytundeb Perthynas sydd mewn grym ar hyn o bryd am y flwyddyn academaidd sydd i ddod [**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol].

## 35. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Cafodd yr aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2223-053);
2. Adolygiad Blynyddol o’r Datganiad a’r Matrics Archwaeth Risg (COU2223-054);
3. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2223-055);
4. Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg (COU2223-056);
5. Crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd yn gysylltiedig â'r Gymraeg (COU2223-057);
6. Adroddiad Monitro Cronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch (HEIRF) (COU2223-058);
7. Digwyddiadau Difrifol y rhoddwyd gwybod i’r Comisiwn Elusennau amdanynt (COU2223-059); a
8. Siarter y Myfyrwyr (COU2223-060)

NODWYD

9. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

## 36. ADRODDIADAU GAN IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion y canlynol (COU2122-061):

1. Y Pwyllgor Buddsoddiadau (26 Hydref 2022);
2. Y Pwyllgor Taliadau (09 Tachwedd 2022);
3. Llywodraethu a Chydymffurfio (16 Tachwedd 2022);
4. Archwilio, Risg a Sicrwydd (17 Tachwedd 2022);
5. Adnoddau a Pherfformiad (18 Tachwedd 2022); a
6. Y Senedd (20 Medi 2022)

NODWYD

7. Yr adroddiadau a dderbyniwyd gan yr is-bwyllgorau.

**37. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL**

Cafwyd sylwadau gan yr aelodau ynghylch y nifer fawr o bapurau y mae angen eu hadolygu cyn y cyfarfod, a thrafodwyd ffyrdd posibl o alluogi sylwadau cyn y cyfarfod ac arweiniad ar ba bapurau i'w blaenoriaethu. Gofynion allanol oedd yn sail i'r agenda ar gyfer cyfarfod mis Tachwedd, yn enwedig felly adroddiadau i'r Cyngor Cyllido, gan mai 30 Tachwedd yw'r dyddiad cyflwyno bob blwyddyn.

Ffarwelio

1. Byddai Stephen Forster, y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, yn ymddeol ar ddiwedd y flwyddyn a diolchwyd iddo am ei wasanaeth i'r Brifysgol.

2. Diolchwyd i Emma Williams am weithredu ar lefel uwch fel Ysgrifennydd y Brifysgol Dros Dro yn ystod tymor yr hydref. Byddai Dr Gwawr Taylor yn dod yn ôl i'w swydd yn Ysgrifennydd y Brifysgol yn Ionawr 2023.

HGRh130123